# SL(5)728 – Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol a Chyfyngiadau) (Diwygio) (Rhif 3) (Cymru) 2021

## Cefndir a Diben

Mae’r Rheoliadau’n diwygio Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) 2020 (y Rheoliadau Teithio Rhyngwladol) a Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 5) (Cymru) 2020 (y Rheoliadau Cyfyngiadau).

Mae cyngor a gafwyd gan y Gydganolfan Bioddiogelwch (JBC) yn nodi y dylai'r cyfyngiadau sydd ar waith ar hyn o bryd, er mwyn ymateb i'r straen newydd o’r coronafeirws a nodwyd gyntaf yn Ne Affrica ym mis Rhagfyr 2020, barhau. Mae'r JBC yn cynghori y dylid ymestyn y mesurau i Weriniaeth Ddemocrataidd y Congo a Tanzania fel dull rhagofalus, gan fod gan y ddau ohonynt ffiniau â Zambia sy’n ddarostyngedig i fwy o gyfyngiadau ac sydd wedi gweld cynnydd yn nifer yr achosion a marwolaethau yn ystod yr wythnosau diwethaf.

Mae rhan 2 o’r Rheoliadau hyn yn diwygio Atodlen 3A i’r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol. Mae rheoliad 2 yn ychwanegu Gweriniaeth Ddemocrataidd Congo a Gweriniaeth Unedig Tanzania at y rhestr o wledydd a thiriogaethau yn Atodlen 3A sy'n ddarostyngedig i fesurau ychwanegol yn rhinwedd rheoliadau 12E a 12F o'r Rheoliadau.

Mae Rhan 3 o’r Rheoliadau hyn yn diwygio’r Rheoliadau Cyfyngiadau er mwyn gosod gofynion ynysu llymach ar bobl sydd wedi bod yng Ngweriniaeth Ddemocrataidd Congo neu Weriniaeth Unedig Tanzania o fewn y cyfnod o 10 niwrnod cyn i’r Rheoliadau ddod i rym, ac ar bobl o’r un aelwyd.

Mae Rhan 4 o’r Rheoliadau hyn yn diwygio rheoliad 12F o’r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol i ychwanegu tri eithriad at y gwaharddiad ar awyrennau neu lestrau sy’n cyrraedd Cymru yn uniongyrchol o wledydd neu diriogaethau a restrir yn Atodlen 3A. Mae'r eithriadau newydd yn cynnwys glanio at ddiben ail-lenwi’r awyren neu’r llestr â thanwydd, neu gynnal a chadw’r awyren neu’r llestr; ambiwlans awyr yw’r awyren a’i fod yn glanio at ddiben cludo person i gael triniaeth feddygol; a llestrau y mae'n ofynnol iddynt angori yn dilyn cyfarwyddyd diogelwch a gyhoeddwyd yn dilyn damwain.

Daeth y Rheoliadau hyn i rym am 4.00 a.m. ar 22 Ionawr 2021.

## Gweithdrefn

Gwneud cadarnhaol.

Gwnaed y Rheoliadau gan Weinidogion Cymru cyn iddynt gael eu gosod gerbron y Senedd.

Mae’n rhaid i'r Senedd gymeradwyo'r Rheoliadau o fewn 28 diwrnod (ac eithrio diwrnodau pan fo’r Senedd: (i) wedi’i diddymu neu (ii) ar doriad am fwy na phedwar diwrnod) i'r dyddiad y’u gwnaed er mwyn iddynt barhau i gael effaith.

## Materion technegol: craffu

Ni nodwyd unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

## Rhinweddau: craffu

Nodwyd y ddau bwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

**1. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy’n debyg o fod o ddiddordeb i’r Senedd.**

Nodwn gyfiawnhad Llywodraeth Cymru dros unrhyw ymyrraeth bosibl â hawliau dynol. Yn benodol, nodwn y paragraff a ganlyn yn y Memorandwm Esboniadol:

> *“Nid yw’r diwygiadau yn y Rheoliadau hyn yn newid y ffaith fod y Rheoliadau Teithio Rhyngwladol yn cyffwrdd â hawliau unigol o dan Ddeddf Hawliau Dynol 1998 a’r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol; mae’r Llywodraeth o’r farn y gellir eu cyfiawnhau at ddiben atal lledaeniad clefydau heintus a/neu y caniateir ymyriad ar y sail ei fod yn anelu at gyflawni nod dilys, sef diogelu iechyd y cyhoedd. Mae’r Llywodraeth o’r farn hefyd eu bod yn gymesur.”*

**2. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy’n debyg o fod o ddiddordeb i’r Senedd.**

Nodwn na chynhaliwyd ymgynghoriad ffurfiol ar y Rheoliadau. Yn benodol, nodwn y paragraffau a ganlyn yn y Memorandwm Esboniadol:

> *“Oherwydd y bygythiad difrifol ac uniongyrchol sy’n deillio o’r coronafeirws a’r angen am ymateb iechyd y cyhoedd brys, ni chynhaliwyd unrhyw ymgynghoriad cyhoeddus mewn perthynas â’r Rheoliadau hyn.”*

## Ymateb Llywodraeth Cymru

Nid oes angen ymateb gan Lywodraeth Cymru.

**Cynghorwyr Cyfreithiol**
**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad**
**22 Ionawr 2021**